**Ysgol Gyfun Cwm Rhondda**
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA

Ffôn: 01443680800 Ebost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

Hydref 23ain 2020.

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Gobeithio eich bod chi a'ch anwyliaid i gyd yn cadw'n iach.

Ar ddiwedd hanner tymor cyntaf y flwyddyn academaidd 2020 - 2021 yn yr ysgol, hoffwn ddiolch i chi unwaith eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod y cyfnod heriol a chyfnewidiol hwn.

Er gwaethaf yr heriau a'r rhwystrau a ddaeth i'n rhan, fe lwyddon ni fel cymuned ysgol i dynnu ynghyd ac i sicrhau bod disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn ymgartrefu yn ôl yn yr ysgol ar ôl cyfnod hir yn dysgu o hirbell.

Rydym wedi croesawu disgyblion Blwyddyn 7 atom a braf gweld eu bod hwythau wedi ymgartrefu a thyfu'n rhan o'n cymuned deuluol agos yn yr ysgol.

Mae sawl blwyddyn ysgol wedi dechrau ar Gyfnod Allweddol newydd a braf gweld eu bod hwythau wedi mynd i'r afael â'u hastudiaethau gyda brwdfrydedd a phenderfyniad i lwyddo.

Mae pethau wedi bod yn wahanol iawn yr hanner tymor hwn, ond mae'n disgyblion a'n staff wedi wynebu bob her gyda gwytnwch a phositifrwydd. Maent wedi llwyddo i gydblethu dysgu yn yr ysgol a dysgu o hirbell a hynny mewn cyfnod byr iawn. Rydym yn hynod falch o'r ffordd y maent wedi ymgymryd â Google Classroom ac rydym yn annog ein disgyblion i barhau gyda'r brwdfrydedd hwn wrth symud at y cam nesaf yn eu dysgu.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd Cyfnod Clo arall ar draws Cymru gyfan i ddechrau am 6 y.h. nos Wener 23.10.2020 hyd at fore Llun 9.11.2020. Yn ystod y cyfnod hwn, hoffwn atgoffa disgyblion o'r rheidrwydd i aros adref a chadw'n ddiogel er mwyn sicrhau ein bod yn ceisio cyfyngu ar ledaeniad y feirws.

Dyma i chi amlinelliad o'n trefniadau ar gyfer yr wythnosau sy'n dilyn:

- **Gwyliau Hanner Tymor – Wythnos yn dechrau 26.10.20**
- **Wythnos yn dechrau 2.11.2020 – Blwyddyn 7 ac 8 i ddychwelyd i'r ysgol. Fe fydd disgyblion Blynyddoedd 9-13 yn aros adref ac yn parhau gyda dysgu o hirbell.**
- **Dydd Gwener 6ed o Dachwedd – Diwrnod HMS i staff. Yr ysgol ar gau i holl ddisgyblion yr ysgol.**
- **Dydd Llun 9fed o Dachwedd – yr ysgol ar agor i holl ddisgyblion yr ysgol.**

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA
Ffôn: 01443680800 Ebost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

Mae'n holl bwysig bod disgyblion yn cael cyfle i ymlacio yn ystod gwyliau'r hanner tymor ar ôl hanner tymor prysur a llwyddiannus. Mae'n bwysig mwynhau amser gyda theulu a sicrhau digon o ymarfer corff a gweithgareddau sy'n eu cadw'n iach yn feddyliol.

Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 2.11.2020, fe fydd yna wersi arferol yn yr ysgol i ddisgyblion 7 ac 8 ac fe fydd disgyblion blynyddoedd 9-13 yn dilyn eu hamserlen arferol drwy lwyfan Google Classroom. Bydd athrawon eich plentyn wedi paratoi adnoddau a gwaith ac wedi'u llwytho ar Google Classroom yn barod ar gyfer yr wythnos hon. Fe ddylai eich plentyn fod yn barod i weithio erbyn 9 y.b ac fe ddylai ddilyn trefn y dydd arferol gymaint ag sy'n bosib. Mae hyn yn sicrhau patrwm sefydlog o weithio ar ei gyfer. **Bydd yr athrawon ar gael ar lein i gynnig cymorth yn ystod y wers.**

Hyd yn hyn, dydyn ni ddim wedi ymgymryd â sesiynau ffrydio byw fel rhan o'n darparieth dysgu cyfunol ond bydd ambell athro yn treialu hyn gyda disgyblion Blynyddoedd 12/13 yn ystod yr wythnos yn dechrau 2.11.2020. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod wedi llenwi'r ffurflen ganiatâd fel rhieni er mwyn sicrhau bod hyn yn gallu digwydd. Diolch i chi sydd eisoes wedi ymateb i'n holiadur a'r cytundeb ffrydio byw diweddar. Bydd pob sesiwn ffrydio byw yn cael ei recordio ac fe fyddwn yn dilyn canllawiau diogelwch Llywodraeth Cymru.

**Cinio ysgol**
Gofynnwn yn garedig i rieni Blwyddyn 7 ac 8 barhau i ddarparu pecynnau bwyd ar gyfer eu plentyn ar gyfer yr wythnos yn dechrau 2.11.2020.
Fe fyddwn yn ail ddechrau darparu prydau poeth o fwydlen gyfyngedig yr wythnos yn dechrau 9.11.2020. Fe fydd mwy o fanylion yn dilyn ar ôl gwyliau'r hanner tymor.
Bydd disgyblion sydd yn hawlio prydau ysgol am ddim yn derbyn taliadau BACS am y bythefnos nesaf.

**Gwisg Ysgol**
Yn ddiweddar, rydym wedi gweld dirywiad yn safon gwisg ysgol ein disgyblion.
Oes modd i chi atgoffa'ch plentyn os gwelwch yn dda bod disgwyl iddo wisgo gwisg ysgol lawn ar wahân i dei ysgol ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Mae gan ddisgyblion sy'n astudio TGAU / BTEC Addysg Gorfforol hawl i wisgo gwisg ymarfer addas yn unig ar ddiwrnod gwers Addysg Gorfforol yn unig.

**Profion positif**
Fel yr ydych yn ymwybodol, mae yna gynnydd sylweddol mewn achosion Covid yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mawr obeithiwn na fydd hyn yn effeithio arnoch chithau fel teuluoedd nac ar ein disgyblion yn ystod y cyfnod clo.
Os ydy'ch plentyn yn derbyn prawf positif yn ystod y gwyliau, oes modd i chi ffonio'r ysgol yn ddiymdroi er mwyn ein hysbysu o hyn os gwelwch yn dda? Fe fydd galwadau i'r ysgol yn cael eu dargyfeirio at aelodau o'r Uwch Dîm Arwain yn ystod gwyliau'r hanner tymor.

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA
Ffôn: 01443680800 Ebost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

Mae'n hanfodol ein bod yn derbyn y wybodaeth hon er mwyn gallu adnabod grwpiau cyswllt posib ac hefyd er mwyn gallu hysbysu'r awdurdod.

**Gorchuddion wyneb**

Er nad oes gofyn statudol i ddisgyblion wisgo gorchuddion wyneb yn yr ysgol, gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad fel rhieni i annog eich plentyn i wisgo gorchuddion wyneb ar bob achlysur. Rydym yn byw ac yn gweithio mewn ardal gyda chyfradd uchel iawn o achosion Covid ac mae'n ddyletswydd arnom i gymryd yr holl gamau posib i ddiogelu'n gilydd ac i weithio gyda'n gilydd i geisio cyfyngu ar ledaeniad yr feirws. O gydweithio, fe allwn deimlo'n hyderus ein bod yn gwneud ein rhan i ddiogelu iechyd ein cymuned cymaint ag y gallwn.

Mae yna bob croeso i chi gysylltu â ni drwy ebost yr ysgol covid@ygcwmrhondda.cymru neu drwy ebost yr Arweinydd Blwyddyn perthnasol os ydych yn dymuno cymorth pellach.

Diolch didwyll i chi am eich cefnogaeth ac am sicrhau ein bod yn cydsymud ac yn cydweithio fel un gymuned yn ystod y cyfnod hwn.

Cadwch yn ddiogel yn ystod y cyfnod clo a gofalwch am eich gilydd.

Yn gywir,

Sara Elise Jones
(Pennaeth Dros Dro).

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA

Ffôn: 01443680800 Ebost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

23rd October 2020.

Dear Parent / Guardian,

I hope you and your loved ones are all keeping safe.

At the end of the first half term of the 2020 – 2021 academic year, I'd like to thank you once again for your continued support and co-operation during this challenging and ever changing time.

Despite every challenge and obstacle, we have succeeded to work together as ever and as a community ensured that Cwm Rhondda's pupils settled again in school following a long period of distanced learning.

We've enjoyed welcoming our pupils back to us again and especially our new pupils in Year 7 who have managed to settle in quickly and become members of the close family we are.

Many school cohorts have entered a new Key Stage, and it's pleasing to see that the pupils have set about their studies diligently and with enthusiasm and determination to succeed.

Conditions in school have been very different this half term, but pupils and staff have faced every challenge with resilience and positivity. They've succeeded in combining learning in school and blended learning in a very short period of time. We're very proud of the way they've taken to Google Classroom and we encourage our pupils to continue with the same enthusiasm in moving forward to the next step in their learning.

As you know, Welsh Government have announced there will be a "Fire Break" across the whole of Wales starting at 6p.m. on Friday 23.10.20, until Monday morning 9.11.2020. During this period, I'd like to remind pupils of the necessity to stay at home in order to curtail the spread of the virus.

Here are our arrangements for the coming weeks:

- Week commencing **26.10.20** – half term holiday
- Week commencing **2.11.2020** – Year 7 and 8 to return to school.
  Year 9-13 to stay home and continue with distanced learning.
- Friday **6 November** – INSET day for staff. School **closed** to all pupils.
- Monday 9 November – school **open** to all pupils.

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA
Ffôn: 01443680800 Ebost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

It's important that pupils have an opportunity to relax during the half term holiday following a busy and successful period in school. Time spent with family, plenty of exercise, and activities promoting wellbeing are all important.

During the week beginning 2.11.2020, there will be school as usual for Years 7 and 8, and pupils in years 9-13 will be following their usual timetables through Google Classroom at home. Your child's teachers will have prepared work and resources on Google Classroom for this week. Your child should be ready to study by 9a.m. and they should follow the school day's routine as closely as possible. This ensures a stable pattern of work for your child. Teachers will be available online to offer support if needed.

We haven't undertaken live streaming as part of our blended learning to date, although some staff will be trialling this with Years 12/13 during the week 2.11.2020. We kindly ask you to return your permission slip to us promptly so that this can continue. Thank you to those who have already responded by returning the blended learning questionnaire and live streaming agreement. Every live streaming session will be recorded and we shall be following Welsh Government safety guidelines.

**School dinner**

We kindly ask that parents of Year 7 and Year 8 pupils continue to provide a packed lunch for their child during the week beginning 02/11/2020.

We will recommence providing some hot school meals, from a limited menu, during the week beginning 09/11/2020. More information will follow about this after the half-term holiday.

For those pupils who are entitled to free school meals, there will be BACS payments for the following fortnight.

**School Uniform**

Recently, we have seen a decline in the standards of our pupils' school uniforms.

We request that you remind your child of the expectation for them to wear their full uniform after their return to school, with the exception of their ties. Pupils studying GCSE / BTEC Physical Education are permitted to wear appropriate PE Kit, only on the days they have PE lessons.

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA

Ffôn: 01443680800 Ebost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

**Positive test results**

As you are aware, there has been a significant increase in the number of positive Covid tests in recent weeks. We sincerely hope that this does not affect you and your families or our pupils during the lockdown period.

However, if your child does receive a positive test result during the holiday, please could you 'phone the school without delay to inform us of this? 'Phone calls to the school will be redirected to members of the Senior Leadership Team during this time.

It is essential that we receive this information to enable us to identify possible contact groups and also to inform the authority.

**Face coverings**

Although there is no statutory requirement for pupils to wear face masks in school, we kindly ask you for your co-operation as parents to encourage your child to wear a face mask **at all times**. We live and work in an area with a very high rate of Covid infection and there is a duty upon all of us to take every possible step to keep each other safe and to work together to reduce the spread of this virus. By working together, we can feel confident that we are all doing our part to protect the health of our own community to the best of our ability.

You are always welcome to contact us by email at the school **covid@ygcwmrhondda** or by emailing the relevant Head of Year if you require further assistance.

Heartfelt thanks to you for your support and for ensuring that we will move forward together as a community during this time.

Keep safe during the lockdown and look after one another.

Yours faithfully,

Sara Elise Jones

(Acting Head Teacher).